



Taliad Costau Angladd i oedolyn

Mae gennym lawer o ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi.

Os hoffech braille, Iaith Arwyddion Prydain, e-bost, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, ffoniwch ni ar **0800 169 0310** neu ffôn testun **0800 169 0314** a dywedwch wrthym pa un sydd ei angen arnoch.

Os ydych yn byw yng Nghymru ac eisiau'r nodiadau hyn a'r ffurflen yn Gymraeg, ffoniwch ni ar **0800 328 1744**.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau tir a ffonau symudol.

Cyn i chi lenwi'r ffurflen gais, cymerwch ychydig funudau i ddarllen y nodiadau hyn. Maent yn cynnwys gwybodaeth bwysig ac yn helpu i egluro rhai o'r cwestiynau rydym yn eu gofyn i chi a pham rydym yn eu gofyn.

Os ydych yn byw yn yr Alban efallai y gallwch wneud cais am Daliad Cymorth Angladd. Ewch i www.mygov.scot am ragor o wybodaeth.

Cadwch y nodiadau hyn er gwybodaeth.

Canllaw cyffredinol yn unig ar gyfer gwneud cais am Daliad Costau Angladd yw'r wybodaeth yn y nodiadau hyn. Mae'n bosibl bod rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio neu wedi dod yn anghywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.

Cynnwys

A allaf gael help.....	3
Yr help y gallwch ei gael.....	4
Cynlluniau angladd rhagdaledig.....	5
Ynglŷn ag unrhyw arian y gallech ei ddefnyddio ar gyfer yr angladd	5
Ynglŷn ag unrhyw arian yr ydych eisoed wedi'i dalu i'r trefnydd angladdau	6
Sut byddwn yn eich talu	6
Talu Taliad Costau Angladd yn ôl.....	7
Cymorth a chyngor	7

Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwmo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I gael gwybod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Equality' yn www.gov.uk

A allaf gael help?

Mae'r nodiadau hyn yn ymwneud â Threuliau Angladdau'r Gronfa Gymdeithasol ar gyfer oedolyn.

Wrth oedolyn rydym yn golygu rhywun 20 oed neu hŷn, neu rywun 16 i 19 oed nad yw mewn:

- addysg llawn amser
- addysg nad yw'n addysg uwch, neu
- hyfforddiant.

Ar gyfer pob amgylchiad arall defnyddiwch y ffurflen Taliad Costau Angladd y Gronfa Gymdeithasol ar gyfer plentyn.

Gallwch wneud cais am Daliad Costau Angladd os:

- rydych yn byw yng Nghymru neu Loegr
- chi oedd partner y person a fu farw
- roeddech yn berthynas agos neu'n ffrind agos i'r sawl a fu farw ac mae'n rhesymol i chi dderbyn cyfrifoldeb am gostau'r angladd, oherwydd eich bod mewn cysylltiad rheolaidd agos â'r person a fu farw.

At ddibenion gwneud cais am daliad angladd rydym yn trin rhywun fel eich partner os ydych:

- yn byw gyda nhw ac yn wŵr, gwraig neu bartner sifil i chi neu'n byw gyda nhw fel petaech chi'n bâr priod
- yn byw gyda nhw fel petaech yn bâr priod yn union cyn i chi neu os aethant i fyw i gartref gofal
- yn bâr priod neu'n bartneriaid sifil ac yn byw yn yr un cartref gofal
- yn byw gyda'ch gilydd fel petaech yn bâr priod yn yr un cartref gofal cyn i'ch partner farw.

Wrth berthynas agos rydym yn golygu:

- rhiant, tad-yng-nghyfraith, mam-yng-nghyfraith neu lys-riant
- mab, mab-yng-nghyfraith, llysfab neu lysfab yng nghyfraith
- merch, merch-yng-nghyfraith, llysfarch neu lysfarch-yng-nghyfraith
- brawd neu frawd-yng-nghyfraith
- chwaer neu chwaer yng nghyfraith.

Os oes perthynas agos arall i'r person a fu farw nad yw'n cael budd-dal cymhwys, efallai y bydd angen i ni ystyried ei sefyllfa.

Ni allwch gael taliad fel perthynas agos neu ffrind agos i'r person a fu farw os:

- roedd gan y person a fu farw bartner pan fu farw
- os oes rhiant, mab neu ferch i'r person a fu farw nad yw'n cael budd-dal cymhwys ac nad oedd ei berthynas â'r person a fu farw wedi chwalu. Oni bai bod y person hwnnw, ar ddyddiad y farwolaeth
 - dan 18
 - yn berson ifanc cymwys at ddiben budd-dal plant
 - yn 18 oed neu drosodd ac mewn addysg amser llawn
 - yn derbyn cymorth lloches gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Geiswyr Lloches (NASS)
 - yn aelod a gynhelir yn llawn o urdd grefyddol
 - mewn carchar neu ysbyty yn union ar ôl cyfnod pan ddyfarnwyd budd-dal cymhwysol i'r person hwnnw neu ei bartner
 - yn berson sy'n preswyllo mewn sefydliad gofal, y telir ei dreuliau yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan yr Awdurdod Lleol neu Lywodraeth Leol
 - fel arfer yn byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Yr help y gallwch ei gael

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio trefnydd angladdau i drefnu angladd. Ond gallwch chi drefnu'r angladd eich hun. Os byddwch yn trefnu'r angladd eich hun, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o'r arian yr ydych wedi'i wario.

Os ydych yn defnyddio trefnydd angladdau, dywedwch wrthynt y byddwch yn gwneud cais am Taliad Costau Angladd.

Fel arfer dim ond rhai costau penodol y gall Taliad Costau Angladd eu talu a chi fydd yn gyfrifol am unrhyw wahaniaeth rhwng swm y Taliad Costau Angladd a chost derfynol yr angladd. Er enghraifft, os oes dewis o dir claddu neu amlosgfa yn yr ardal leol, mae rheolau'r Gronfa Gymdeithasol fel arfer yn caniatáu i ni dalu am yr opsiwn rhataf yn unig. Os byddwch yn dewis angladd drutach efallai na fyddwn yn gallu talu'r gost lawn ac efallai mai chi sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth.

Gall y Taliad Costau Angladd gynnwys:

- cost ail-agor bedd a chostau claddu, neu
- cost agor bedd newydd a chostau claddu, gan gynnwys unrhyw hawl ecsgliwsif i ffi claddu – mae hyn yn cynnwys bedd a adenillwyd. (Mae hawl neilltuedig i gladdu am nifer penodol o flynyddoedd. Yr awdurdod lleol neu berchennog y tir lle cynhelir y gladdedigaeth sy'n penderfynu ar y cyfnod hwn), neu
- yn achos amlosgiad
 - cost yr amlosgiad
 - cost symud rheolydd calon neu ddyfais feddygol arall y mae'n rhaid ei thynnu cyn yr amlosgiad
- cael unrhyw eirida meddygol, adroddiad neu ddogfennaeth arall sy'n ofynnol mewn cysylltiad â chael gwared ar gorff yr ymadawedig boed hynny drwy gladdedigaeth, amlosgiad neu fel arall
- cost unrhyw ddogfennau sydd eu hangen i ryddhau arian, cynilion ac eiddo'r person a fu farw
- pan fo angen symud y corff dros 50 milltir o fewn y DU i safle'r trefnydd angladdau neu fan gorffwys, cost resymol y rhan honno o'r daith sydd dros 50 milltir
- pan fo'r daith i'r angladd o reidrwydd dros 50 milltir, cost cludo'r arch, cludwyr ac un cerbyd ychwanegol ar gyfer y rhan honno o'r daith sydd dros 50 milltir
- yn amodol ar rai cyfyngiadau, cost angenrheidiol taith ddwyffordd i chi naill ai
 - trefnu yr angladd, neu
 - mynd i'r angladd
- hyd at £1,000 ar gyfer unrhyw gostau angladd eraill. Mae'r swm hwn yn cynnwys yr holl gostau eraill mewn cysylltiad â'r angladd. Gallai hyn gynnwys yr arch, ceir a ffioedd y trefnydd angladdaus.

Os ydych wedi defnyddio trefnydd angladdau ac wedi talu am rywbeth nad yw wedi'i gynnwys yn y bil trefnydd angladdau, fel blodau, efallai y byddwn yn gallu talu am hyn. Dim ond os yw taliadau'r trefnydd angladdau ar gyfer yr angladd yn llai na £1,000 y gallwn dalu am hyn.

Cynlluniau angladd rhagdaledig

Mae angen i ni wybod a oedd gan y person a fu farw:

- cynllun angladd rhagdaledig. Cynllun angladd rhagdaledig yw unrhyw drefniant a wneir cyn marwolaeth i dalu am rai o gostau angladd, neu'r cyfan ohonynt
- bond angladd
- unrhyw drefniant rhagdaledig arall fel y rhain.

Ni allwn helpu gydag unrhyw eitemau a gwasanaethau a restrir uchod sydd eisoes wedi'u cynnwys yn llawn mewn cynllun rhagdaledig. Ond efallai y gallwn dalu am:

- cost unrhyw eitemau a restrir uchod nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y cynllun
- rhan-gost unrhyw eitemau a restrir uchod sydd ond yn cael eu cynnwys yn rhannol yn y cynllun
- hyd at £120 ar gyfer unrhyw gostau angladd eraill.

Er mwyn i ni allu gwneud penderfyniad am eich cais, mae angen i ni wybod beth mae'r cynllun yn ei ddarparu. Anfonwch atom:

- copi o'r cynllun gwreiddiol
- unrhyw ddogfennau a gawsoch gan ddarparwr y cynllun yn dangos yr eitemau a'r gwasanaethau y mae'r cynllun yn eu darparu ar gyfer yr angladd hwn.

Os na thalwyd cynllun angladd rhagdaledig yn llawn cyn i'r person farw, bydd angen i ni wybod faint sydd wedi'i ad-dalu neu a fydd yn cael ei ad-dalu gan ddarparwr y cynllun. Anfonwch atom:

- copi o'r cynllun gwreiddiol
- unrhyw ddogfennau a gawsoch gan ddarparwr y cynllun yn dangos y swm i'w ad-dalu.

Ynglŷn ag unrhyw arian y gallech ei ddefnyddio ar gyfer yr angladd

Pan fyddwn yn gweithio allan faint o help y gallwch ei gael byddwn hefyd yn edrych ar unrhyw arian sydd ar gael i helpu i dalu am yr angladd.

Byddwn yn cymryd yr arian hwn i ystyriaeth pan fyddwn yn cyfrifo faint y gallwn ei dalu i chi. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft:

- arian o ystâd y person sydd wedi marw
- arian mewn banc, cymdeithas adeiladu neu gyfrif Swyddfa'r Post® y person a fu farw. Efallai y gallwch ofyn i'r banc neu gymdeithas adeiladu dalu bil yr angladd os oes digon o arian yn y cyfrif
- arian o bolisiau yswiriant ar ôl i'r person farw
- arian o gynllun pensiwn galwedigaethol ar ôl i'r person farw
- arian o glwb claddu neu rywbeth fel hyn
- unrhyw gnylioni neu arian parod y person a fu farw.

Ni fyddwn yn ystyried unrhyw ôl-ddyledion budd-dal nac unrhyw gyfandaliad Taliad Profedigaeth. Ni fyddwn ychwaith yn ystyried unrhyw gyfraniadau gan elusennau, ffrindiau neu berthnasau tuag at gost yr angladd. Mae hyn i gydnabod y gall cyfanswm cost angladd fod yn fwy na gwerth y Taliad Costau Angladd.

Ynglŷn ag unrhyw arian yr ydych eisoes wedi'i dalu i'r trefnydd angladdau

Mae angen i chi ddweud wrthym os ydych wedi talu rhan o fil y trefnydd angladdau. Dywedwch wrthym faint rydych wedi'i dalu, pwy dalodd, o ble y daeth yr arian a phryd y cafodd ei dalu.

Sut byddwn yn eich talu

Os gallwn dalu Taliad Costau Angladd i chi, a'ch bod wedi defnyddio trefnydd angladdau ond nad yw ei fil wedi'i dalu, byddwn fel arfer yn talu'n uniongyrchol i gyfrif banc y trefnydd angladdau.

Anfonwch ffurflen dull talu'r trefnydd angladdau atom os rhoddwyd un i chi.

Os yw bil y trefnydd angladdau eisoes wedi'i dalu'n llawn, neu os nad ydych wedi defnyddio trefnydd angladdau, byddwn yn eich talu, fel arfer yn uniongyrchol i mewn i gyfrif.

Talu Taliad Costau Angladd yn ôl

Bydd yn rhaid talu Taliad Costau Angladd yn ôl o ystâd y person a fu farw, os yw hyn yn bosibl. Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid talu costau angladd cyn i unrhyw beth arall gael ei dalu o'r ystâd, hyd yn oed os yw hynny'n golygu na all biliau eraill gael eu talu a bod yn rhaid eu dileu.

Wrth ystad rydym yn golygu:

- unrhyw asedau fel eiddo, tir, stociau a chyfranddaliadau, cynilion ac unrhyw arian neu arian parod arall sy'n perthyn i, neu sy'n ddyledus i'r person a fu farw
- unrhyw arian sy'n dod i mewn i'r ystâd ar ôl i'r person farw Byddwn yn ysgrifennu atoch chi neu'r person sy'n gofalu am faterion ariannol y sawl a fu farw.

Byddwn yn gofyn a adawodd y person a fu farw unrhyw ystâd y gellir ad-dalu'r Taliad Costau Angladd ohoni

Mae hyn oherwydd nad yw arian bob amser ar gael i dalu am yr angladd, ond efallai y bydd ar gael yn ddiweddarach. Er enghraifft, efallai y bydd arian yn cael ei ryddhau yn ddiweddarach neu efallai y byddwch yn dod o hyd i bolisi yswiriant nad oeddech yn gwybod amdano.

Nid ydym yn cyfrif y cartref a feddiannir gan bartner y person a fu farw, nac eiddo personol a adawyd i berthnasau.

Cymorth a chyngor

Os hoffech siarad â rhywun am Daliadau Costau Angladd cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Gallwch siarad â rhywun yn eich canolfan gwaith agosaf, neu gartref os byddai'n well gennych.

Gallwch hefyd gael rhagor o wybodaeth o [**www.gov.uk**](http://www.gov.uk)

Os ydych yn byw yn yr Alban efallai y gallwch hawlio Taliad Cymorth Angladd. Ewch i am fwy o wybodaeth.

Cadwch y nodiadau hyn mewn lle diogel. Nid oes angen eu dychwelyd gyda'r ffurflen.